PROSIECT GWYRDD DATGANIAD I'R WASG

27 Tachwedd 2008

Gweithio mewn partneriaeth ar gyfer ateb hir dymor i wastraff

Mae Cyngor Caerdydd, Cyngor Bro Morgannwg, Cyngor Sir Fynwy, Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Caerffili a Chyngor Dinas Casnewydd wedi ymrwymo i ailgylchu a chompostio cymaint o wastraff â phosibl yn y dyfodol agos i gwrdd â'r targedau ailgylchu a chompostio heriol sydd o'n blaenau.
Wrth i'r partneriaid ymdrechu i gwrdd â'r targedau, mae'r bartneriaeth yn gweithio gyda'i gilydd ar ateb rhanbarthol i adennill gwerth o'r gwastraff sy'n weddill (gwastraff gweddilliol) na fydd modd ei ailgylchu na'i gompostio.

Mae adroddiad cyffredin wedi'i ysgrifennu gan y 5 awdurdod lleol a fydd yn cael ei drafod yng Nghyfarfodydd Busnes y Weithrediaeth/Cabinet perthnasol ym mhob awdurdod ar ddechrau Ionawr.
Mae'r argymhellion yn gofyn i'r 5 awdurdod gymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol, yn seiliedig ar y bwlch fforddiadwyedd a'r gofynion ariannu gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer ateb trin gwastraff gweddilliol sy'n dechnolegol niwtral. Mae'r opsiynau'n cynnwys:

- Treulio anaerobig
- Autoclave
- Ynni o Wastraff gyda Gwres a Phŵer Cyfunol
- Nwyeiddio
- Triniaeth Fiolegol Fecanyddol (TFF)
- TFF gydag Ynni o Wastraff,
- Pyrolosis

Mae safleoedd tirlenwi bob amser wedi bod yn un o'r prif ffyrdd o drin gwastraff yng Nghymru a chydnabyddir na ellir parhau fel hyn. Mae'r ffeithiau'n amlwg, nid oes llawer o dir i barhau â'r dull gwaredu gwastraff hwn, nid yw'n opsiwn cynaliadwy a phan fo gwastraff yn cael ei dorri i lawr heb aer wrth dirlenwi, cynhyrchir methan sy'n un o'r prif ffactorau sy'n cyfrannu at y newid mewn hinsawdd.

Dywedodd y Cynghorydd Colin Mann, Cadeirydd Grŵp Llywio Prosiect Gwyrdd "Mae Prosiect Gwyrdd yn bartneriaeth effeithiol yn edrych ar ateb i wastraff gweddilliol. "Mae'r nod wedi'i osod yn glir, i bob awdurdod ailgylchu a chompostio gymaint o wastraff â phosibl tra'n gweithio gyda'i gilydd i adennill gwerth o'r gwastraff na ellir ei ailgylchu neu'i gompostio." Dyma bartneriaeth llywodraeth leol bwysig, gydag agenda gweithio ar y cyd i gwrdd â'r targedau heriol a osodwyd gan yr Undeb Ewropeaidd. Dyma broject cyfalaf sylweddol yng ngoleuni'r dirwasgiad economaidd sydd ar ddod."

a gyhoeddwyd gan prosiect gwyrdd
e-bost: info@prosiectgwyrdd.co.uk
dros y ffôn: 029 20 717523